

MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol a Chynllunio Amrywiol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

1. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn cael ei osod o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae Rheol Sefydlog 30A yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ac y caiff Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os bydd unrhyw un neu rai o Offerynnau Statudol y DU yn gwneud darpariaeth, mewn perthynas â Chymru, sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.
2. Cafodd yr Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol a Chynllunio Amrywiol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 eu cyflwyno gerbron Senedd y DU ar 24 Hydref 2018. Mae'r Rheoliadau i'w gweld yma:

<https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-environmental-assessments-and-miscellaneous-planning-amendment-eu-exit-regulations-2018>

Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i amcan

3. Amcan yr OS yw mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, ac â diffygion eraill sy'n codi yn sgil y ffaith bod y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, fel y darperir ar gyfer hynny gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae hefyd yn cywiro cyfeiriadau wedi dyddio at ddeddfwriaeth yr UE.
4. Mae'r OS yn diwygio nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth:
 - Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
 - Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004;
 - Deddf Cynllunio 2008;
 - Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004;
 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017, a
 - Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017.

Darpariaeth berthnasol i'w gwneud gan yr OS

5. Yn benodol, mae'r OS hwn yn gwneud cywiriad technegol i'r diffiniad o wastraff yn adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n gymwys i Gymru ac i Loegr. Mae angen gwneud y cywiriad er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau'n gyfredol.

6. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddarpariaeth a ddisgrifir yn y paragraff uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n ymwneud â chynllunio; nad yw'n cael ei restru'n fater penodol a gedwir yn ôl o dan Ran 7 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.
7. Pan fo deddfwriaeth gyfatebol yn ei lle yng Nghymru, ymdrinnir â chywiriadau i ddiffygion drwy wneud Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE ar gyfer Cymru.

Pam mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon

8. Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi sy'n gysylltiedig â'r cywiriad. Felly, byddai gwneud Offerynnau Statudol ar wahân yng Nghymru a Lloegr i gywiro'r cyfeiriad o dan sylw yn arwain at ddyblygu, ac at gymhlethu'r llyfr statud yn ddiangen. Mae rhoi cydsyniad i'r OS hwn yn sicrhau mai un fframwaith deddfwriaethol a fydd yn bodoli ar draws Cymru a Lloegr, ac mae hynny'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

Hydref 2018